

# **PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL HSS-11-01(p.1)**

<b>Dyddiad</b>	6 Mehefin 2001
<b>Lleoliad</b>	Ystafell Bwyllgora 3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
<b>Teitl</b>	Adroddiad Misol Drafft Y Gweinidog Dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## **1. MATERION SY’N YMWNEUD Â STRATEGAETH:**

1.1 "Gwella Iechyd yng Nghymru" – Y Newyddion Diweddaraf am y Cynllun Gweithredu

1.2 Telefeddygaeth

1.3 Telathrebu

1.4 Rhaglen Sylfaen

## **2. PERFFORMIAD YR NHS:**

2.1 Amserau Aros

2.2 Pwysau Brys

2.3 Presgripsiynau a Baratowyd yng Nghymru, 1999-2000

## **3. GWELLA IECHYD A MYND I’R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU:**

3.1 Y Gronfa Anghydraddoldebau o ran Iechyd

3.2 Datganiad am Glwy’r Traed a’r Genau

3.3 System Adrodd am Ddigwyddiadau Clinigol Andwyol

## **4. RHEOLEIDDIO ANSAWDD AC AROLYGU:**

## 4.1 Y Fenter Gofal Llygaid

## **5. GWASANAETHAU PLANT:**

5.1 Cofrestr Fabwysiadu ar gyfer Cymru a Lloegr

5.2 Safonau Mabwysiadu

5.3 Strategaeth Troseddwyd Ifanc Cymru Gyfan

5.4 Gwasanaeth Cynghori a Chymorth y Llys Plant a Theuluoedd (CAFCASS)

5.5 Trefniadau newydd ar gyfer Ymadawyr â Gofal

5.6 Ailddechrau Imiwneiddio BCG (y Diciâu)

## **6. GOFAL CYMDEITHASOL:**

6.1 Polisi'r Cynulliad er Atal Trais yn y Cartref

6.2 Gofalwyr

6.3 Sector Gwirfoddol / Gwirfoddoli

6.4 "Hyblygrwydd" Deddf Iechyd 1999

6.5 Datblygu Strategaeth ar gyfer Pobl Hn yng Nghymru

## **7. AROLYGIAETH SAFONAU GOFAL CYMRU: GWEITHREDU**

## **8. SEFYLLFA ARIANNOL**

## **9. CYNULLIAD IECHYD Y BYD**

## **10. RHAGLEN IS-DDEDDFWRIAETH IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2001**

### **1. MATERION SY’N YMWNEUD Â STRATEGAETH:**

#### **1.1 "Gwella Iechyd yng Nghymru" – Y Newyddion Diweddaraf am y Cynllun Gweithredu (ar 16 Mai)**

Bellach, mae’r naw grp gorchwyl-a-gorffen a enwir isod wedi cyfarfod ac maent wrthi’n ddyfal yn pennu ystod a manylion y camau sy’n angenrheidiol i weithredu’r cynllun, sef:

- Newid Strwythurol;
- Datblygu Gwasanaethau;
- Sialensiau Iechyd;
- Adolygiad Iechyd y Cyhoedd;
- Canolbwyntio ar Gleifion/Ennyn Diddordeb y Cyhoedd;
- Gweithio ar y Cyd, Datblygu’r Gweithlu;
- Cyllid ac Asedau;
- Rheoli Perfformiad;
- Datblygu’r Gweithlu.

Byddant yn adrodd ynghylch eu blaenraglenni gwaith erbyn diwedd mis Mehefin.

Yn benodol, yr wyf yn disgwyl i’r Grp Newid Strwythurol adrodd eu hargymhellion i fi erbyn mis Gorffennaf. Wedyn, byddaf yn trefnu i ymarfer ymgynghori cyhoeddus gael ei gynnal yn ystod yr haf.

Er mwyn sicrhau bod modd gadael i bob rhanddeiliad wybod y diweddaraf am ddatblygiadau, yr wyf wedi cytuno ar Strategaeth Gyfathrebu i ddarparu newyddion am drafodaethau, cynigion a phenderfyniadau o’r broses weithredu wrth iddynt ddatblygu. Mae’r strategaeth yn cynnwys sefydlu gwefan agored, darparu Cylchlythyrau rheolaidd a threfnu gweithdai ledled Cymru. At hynny, mae grwpiau cyfeirio wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob grp gorchwyl-a-gorffen er mwyn cynnwys rhanddeiliaid yn fwy yn natblygiad gwaith y grwpiau.

## 1.2 Telefeddygaeth

Mae'r tîm Telefeddygaeth wedi sefydlu strwythur a phroses ar gyfer cloriannu cynigion ar gyfer prosiectau Telefeddygaeth.

Daeth pum cynigion prosiect i law erbyn y dyddiad cau, sef 30 Ebrill. Bellach, mae'r cynigion yn cael eu cloriannu'n ffurfiol a byddaf yn cyhoeddi'r ceisiadau llwyddiannus yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol cyn y gwyliau.

## 1.3 Telathrebu

Mae Strategaeth Telathrebu 2000 ar gyfer yr NHS yng Nghymru yn galw am drosglwyddo data sydd ar Rwydwaith Digidol Cymru-Gyfan (DAWN) a rhwydweithiau presennol Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd i dechnoleg arloesol newydd o'r enw IP-VPN (Protocol Rhyngrwyd - Rhith-Rwydwaith Preifat).

Mae Grp Caffael o Raglen Trosglwyddo Data y Bwrdd Telathrebu wedi enwi BT fel "dewis ddarparwr" y dechnoleg hon o dan drefniant gwasanaeth rheoledig. Mae aelodau'r Bwrdd Rheoli Gwybodaeth am Iechyd (HIMB) wedi cymeradwyo'r penderfyniad hwn a hysbyswyd BT am y penderfyniad yn ffurfiol gan Gyflenwadau Iechyd Cymru ar 20 Ebrill.

Caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu gan BT drwy ddefnyddio un o'i gynhyrchion, sef **MetroVPN** a thrwy delerau cyfredol Cytundeb Gwasanaethau Rhwydwaith Rheoledig (MNSA) presennol yr NHS.

## 1.4 Rhaglen Sylfaen:

Un o ddefnyddwyr cyntaf y rhwydwaith telathrebu strategol newydd fydd Cymuned y Practisiau Meddygol Cyffredinol, o dan gyfarwyddyd y '*Rhaglen Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TCG) ar gyfer Practisiau Meddygol Cyffredinol*'.

Mae'r rhaglen gorfforaethol allweddol hon, sy'n seiliedig ar fuddiannau'r gwasanaeth, yn cael ei chyllido ar sail arian cyfatebol - £9 miliwn yn cael ei ddarparu gan y Cynulliad Cenedlaethol a £9 miliwn ychwanegol yn cael ei ddarparu gan yr NHS.

Bydd y Rhaglen yn gwella ansawdd yr wybodaeth sydd ar gael ym maes Meddygaeth Gyffredinol i ategu gofal uniongyrchol ar gyfer cleifion drwy sicrhau bod yr **holl** Bractisiau Meddygol Cyffredinol yng Nghymru yn meddu ar lefel sylfaenol ddiffiniedig o systemau gwybodaeth a chyfathrebu, a'u ***bod yn eu defnyddio***, erbyn diwedd 2003.

Mae prif amcanion y Rhaglen hon yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu llinell sylfaen genedlaethol ym maes Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ar gyfer Practisiau Meddygol Cyffredinol yng Nghymru
- Datblygu fframwaith cyfrifiadurol corfforaethol ar gyfer ad-dalu Meddygon Teulu
- Cysylltu'r holl Bractisiau Meddygol Cyffredinol â'r rhwydwaith telathrebu strategol newydd
- Diffinio rhaglen addysg a hyfforddiant gysylltiedig a fydd yn ei gwneud yn bosibl i'r holl bractisiau yng Nghymru ddefnyddio'r llinell sylfaen hon ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Cyflwyno prosiect gwireddu buddiannau cynhwysfawr, a fydd yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei gyflwyno ar ôl sefydlu'r seilwaith, yn hytrach nag ystyried bod gweithredu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn nod ynddo ei hun.

Er mwyn arolygu'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Rhaglen hon, mae Bwrdd wedi cael ei sefydlu a buddiannau Ymarferwyr Cyffredinol a Grwpiau Iechyd Lleol wedi'u cynrychioli'n gryf ymhlith yr aelodau. At hynny, mae holl Brif Weithredwyr yr Ymddiriedolaethau Iechyd wedi derbyn egwyddorion y Rhaglen.

Mae nifer o ddogfennau allweddol yn cael eu datblygu er mwyn sicrhau bod dulliau gweithredu cyson, corfforaethol yn cael eu cyflawni ym mhob cwr o Gymru yn ystod oes y Rhaglen. Mae'r dogfennau hyn fel a ganlyn:

- Dogfen Rhoi Cychwyn ar y Rhaglen (PRID)
- Canllawiau Gweithredol gan gynnwys

- Dogfen Llinell Sylfaen TGC

- Fframwaith Ad-daliadau TGC

- Pecyn Cymorth (gan gynnwys canllawiau ar lunio cynllun ar gyfer y practis ac offer cloriannau systemau)

Er mwyn hybu ymwybyddiaeth am y Rhaglen a'i hegwyddorion allweddol, cafodd cyfres o 'Sioeau ar Daith' i Gymru gyfan eu cynnal ddiwedd mis Ebrill a dechrau mis Mai, a bu rhyw 40% o'r holl Bractisiau Meddygol Cyffredinol yn bresennol.

## **2. PERFFORMIAD YR NHS:**

### **2.1 Amserau Aros**

Cafodd ffigurau'r rhestrau aros ar gyfer mis Ebrill eu cyhoeddi ar 30 Mai. Byddaf yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

### **2.2 Pwysau Brys**

Yr ydym yn dal i fonitro'r pwysau y mae'r NHS yn eu profi drwy adroddiadau dyddiol. Er nad oedd y problemau gynddrwg eleni, arhosodd y pwysau yn gyson o uchel gydol y gaeaf ac maent yn dal i fod yn sylweddol.

Mae'r wybodaeth sydd wedi cael ei chasglu yn ystod cyfnod y gaeaf yn cael ei hadolygu er mwyn cynhyrchu adroddiad am effeithiolrwydd Cynlluniau'r Gaeaf. Bydd hyn yn llywio'r cynlluniau ar gyfer y gaeaf nesaf sydd i fod i gael eu datblygu erbyn diwedd mis Medi. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ddatblygu prosesau i gasglu gwybodaeth sy'n ymwneud ag oedi wrth drosglwyddo i fath arall o ofal.

### **2.3 Presgripsiynau a Baratowyd yn y Gymuned 1999-2000**

Yr oedd nifer yr eitemau presgripsiwn a baratowyd yn y gymuned yn dal i gynyddu – o 40.0 miliwn ym 1998-99 i 41.2 miliwn ym 1999-00, sef cynnydd o 3 y cant.

Cynyddodd cost net cynhwysion y presgripsiynau hyn o 11 y cant yn ystod y flwyddyn flaenorol, i £388 miliwn. Mewn termau real, gan gymryd datchwyddiant y CMC i ystyriaeth, yr oedd hyn yn gynydd o ychydig dros 9 y cant. Yr oedd hyn yn golygu i bawb yng Nghymru gael darpariaeth a oedd yn cyfateb i 14 o eitemau presgripsiwn yr un, a'r gost net cynhwysion yn £132.

Er gwaethaf y cynnydd hanesyddol o uchel, a achoswyd yn bennaf gan gynyddu sydyn ar brisiau cyffredinol ar ôl cau cyflenwr o bwys, mae'r Awdurdodau Iechyd yn dal o fewn eu cyllidebau. Ar hyn o bryd, mae argymhellion y grp gorchwyl-a-gorffen ar ragnodi yn cael eu hystyried a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod yr hydref. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr arferion gorau ac ni ddisgwylir y bydd yn cael effeithiau o bwys ar wariant.

Mae copi o'r brîff, sy'n amlinellu gwybodaeth am bresgripsiynau a baratowyd yng Nghymru, 1999 – 2000, wedi'i amgáu yn atodiad A.

## **3. GWELLA IECHYD A MYND I'R AFAEL AG ANGHYDRADDOLDEBAU:**

### **3.1 Y Gronfa Anghydraddoldebau o ran Iechyd**

Cafodd y *Gronfa Anghydraddoldebau o ran Iechyd* ei sefydlu i ysgogi a chynorthwyo gweithredu lleol newydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran iechyd a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys anghydraddoldebau o ran mynediad i wasanaethau iechyd. Cafodd manylion llawn y Gronfa eu rhyddhau drwy ddsbarthu estynedig ar Gylchlythyr Iechyd Cymru (2001) 06. Blaenoriaeth y Gronfa ar gyfer ei blwyddyn gyntaf yw clefyd coronaidd y galon a gweithredu sy'n cyfrannu at roi Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon ar waith. Mae ganddi gyllideb o £3 miliwn eleni i gynnal gweithredu ym maes clefyd coronaidd y galon. Yn ôl ym mis Chwefror, cyhoeddais y byddai £1 miliwn yn ychwanegol ar gael i'r Gronfa ar gyfer mentrau deintyddol a rhaglen selio rhigolau. Mae trefniadau ar wahân yn cael eu gwneud ar gyfer yr elfen hon o'r Gronfa.

Mae'n bleser gennyf ddweud bod 112 o gynigion wedi dod i law erbyn y dyddiad cau, sef 6 Ebrill 2001. Mae ansawdd cyffredinol y cynigion yn dda, a da hefyd yw gweld bod gweithredu'n cael ei dargedu at gymunedau difreintiedig a grwpiau o dan anfantais ymhlith y boblogaeth. Mae'r cyfryw lefelau diddordeb yn galonogol iawn ac yn dangos ymrwymiad amrediad eang o gyrff i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ym maes iechyd mewn partneriaeth ag eraill. Er hynny, mae'n golygu bod gormod o geisiadau wedi dod i law. Mae fy swyddogion wedi bod yn rheoli proses asesu fanwl ar gyfer y cynigion a ddaeth i law, ac mae cynrychiolwyr o'r NHS, o lywodraeth leol ac o'r sector gwirfoddol wedi cael eu cynnwys yn hyn. Yr wyf yn gobeithio y caf wneud cyhoeddiad am y prosiectau a ddetholwyd i'w cynorthwyo yn diweddarach y mis hwn.

### **3.2 Datganiad am Glwy'r Traed a'r Genau**

Ar 25 Mai, rhoddodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd gyngor i ffermwyr ynghylch defnyddio llaeth nad yw'n cael ei swmpgludo, o anifeiliaid a oedd wedi bod yn pori o fewn 2km i safleoedd y coelcerthi gwaredu. Daeth yr Asiantaeth i'r casgliad bod y cyngor hwn yn angenrheidiol cyn i ganlyniadau profion mewn perthynas â diocsinau fod ar gael yn ystod mis Mehefin. Caiff ei adolygu cyn gynted ag y caiff y canlyniadau eu dadansoddi.

Mae'r Adran Iechyd wedi cyhoeddi fframwaith ar gyfer monitro iechyd y cyhoedd yn y tymor hwy yn sgil argyfwng clwy'r traed a'r genau. Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi bod yn dilyn y gwaith pwysig hwn ac mae hi'n sefydlu grp monitro i sicrhau bod y trefniadau angenrheidiol wedi'u sefydlu gennym yng Nghymru.

Cydnabyddir yn gyffredinol fod y straen a'r gofid a berir gan sefyllfa clwy'r traed a'r genau wedi effeithio ar iechyd meddwl pobl ac ar eu lles. Er mwyn archwilio hyn yn fwy manwl, mae gwybodaeth wedi cael ei chasglu oddi wrth nifer o gyrff sy'n darparu cyngor, cymorth a gwasanaethau eraill. Mae adroddiad o'r astudiaeth raddfa-fach gychwynnol hon wedi cael ei baratoi a chaiff ei gyhoeddi. Byddaf yn trefnu i holl Aelodau'r Pwyllgor hwn gael copi. Fel y crybwyllwyd yn fy natganiad am glwy'r traed a'r genau, mae cynlluniau ar y gweill i ymgymryd ag asesiad mwy manwl o effeithiau clwy'r traed a'r genau ar iechyd meddwl pobl ac ar eu lles.

### **3.3 System Adrodd am Ddigwyddiadau Clinigol Andwyol**

Mae *Gwella Iechyd yng Nghymru* yn amlinellu cynigion parthed cyflwyno system adrodd am ddigwyddiadau clinigol andwyol yng Nghymru. Yr ydym wedi cychwyn ar drafodaethau â Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban ynghylch dulliau o weithio gyda'n gilydd. Mae'r Adran Iechyd yn lansio Asiantaeth Diogelwch Cleifion Genedlaethol newydd a fydd yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu system adrodd am ddigwyddiadau andwyol a digwyddiadau 'cael a chael'. Mae Cymru wedi cael ei gwahodd i ystyried dulliau o weithio gyda'r Asiantaeth, gan adeiladu ar ein partneriaethau llwyddiannus presennol â CHI a NICE.

Agwedd bwysig ar waith yr Asiantaeth fydd cytuno ar safonau cenedlaethol a rhyngwladol a diffiniadau o ddigwyddiadau andwyol a digwyddiadau 'cael a chael'. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r Asiantaeth ddarparu tueddiadau lleol a chenedlaethol a thynnu sylw cyrff perthnasol at faterion y mae angen iddynt fynd i'r afael â hwy. Yn bwysicaf oll, bydd yn ei gwneud yn bosibl i'r asiantaeth ddysgu o gangymeriadau drwy sefydlu cysylltiadau â phartneriaid rhyngwladol. Mae trafodaethau yn cael eu cynnal rhwng swyddogion ac yr ydym yn disgwyl y byddwn yn gallu cytuno ar sut y bydd Cymru yn gweithio gyda'r Asiantaeth yn ystod y misoedd nesaf.

## **4. RHEOLEIDDIO ANSAWDD AC AROLYGU:**

### **4.1 Y Fenter Gofal Llygaid**

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi bod y Fenter Gofal Llygaid, rhaglen ar gyfer darganfod clefydau'r llygaid ymhlith grwpiau o bobl sy'n fwy tebygol o gael problemau, sy'n unigryw i Gymru, ar waith erbyn hyn. Yr wyf wedi cael adroddiad oddi wrth y gweithgor arbenigol, sy'n argymhell cyfres o archwiliadau y bwriedir iddynt ddarganfod clefydau'r llygaid ymhlith grwpiau 'mewn perygl' yng Nghymru, ynghyd â chanllawiau ar gyfer optometryddion sy'n cymryd rhan yn y fenter.

Yn ogystal, mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ynghylch sefydlu Rhaglen Sgrinio Retinopathi Diabetig i Gymru Gyfan a derbyn model sy'n darparu gwasanaethau Golwg Isel ym mhob cwr o Gymru.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r grp arbenigol am ei ymroddiad a'i waith caled wrth baratoi'r adroddiad.

Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio i ystyriaeth gael ei rhoi, i ddechrau, i ehangu'r categorïau o bobl sydd â hawl i gael profion llygaid NHS am ddim yng Nghymru. Cafodd y categorïau eu penderfynu gan y Pwyllgor ar ôl ymarfer ymgynghori a oedd yn cynnwys cyrff proffesiynol a chyrff gwirfoddol. Yr oedd y grwpiau fel a ganlyn:

- grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn enwedig pobl Affro-Caribiaidd a phobl Asiaidd heblaw Tsieineaid



- pobl ag un llygad
- pobl â nam ar eu clyw
- y bobl hynny sy'n dioddef o glefydau etifeddol penodol sy'n effeithio ar y llygad, megis *retinitis pigmentosa*

Ar ôl cael cyngor cyfreithiol, sef y gallai'r polisi fod yn agored i'w herio o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol, cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig y dylai profion llygaid i ddarganfod clefydau'r llygaid fod ar gael i'r un grwpiau. Yn ogystal, byddai profion ar gael i gleifion a gâi eu cyfeirio gan ymarferwyr cyffredinol at optometryddion.

O hyn ymlaen, aiff gwaith ymlaen i nodi, hyfforddi ac achredu optometryddion sy'n cymryd rhan yn y fenter. Yr wyf yn ddiolchgar iawn i'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Cymru, sydd wedi ymrwymo'n llawn i'r fenter ac sydd wedi cynnig gweithio mewn partneriaeth gyda'r Cynulliad er mwyn sicrhau y bydd yn llwyddo. Byddaf yn ceisio eu cymorth a'u cyngor i hybu'r Fenter ac mewn perthynas ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth cysylltiedig.

Y cam nesaf at sefydlu Rhaglen Sgrinio Retinopathi Diabetig i Gymru Gyfan yw sefydlu Grp Strategaeth a fydd yn archwilio darpariaeth bresennol y cyfryw wasanaethau ym mhob cwr o Gymru. Bydd y Grp yn gwneud argymhellion am raglen sgrinio ar gyfer Cymru Gyfan sydd yn unol ag argymhellion Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU ac yn hyrwyddo sefydlu Canolfan Gydgysylltu Genedlaethol. Bydd y Grp yn adrodd ar ei argymhellion tua diwedd yr haf, 2001.

Argymhellodd y gweithgor arbenigol fod grp strategaeth yn cael ei sefydlu i ystyried anghenion poblogaeth Cymru o ran golwg isel ac i wneud argymhellion ar sail gwasanaeth golwg isel ym maes gofal sylfaenol, gan sicrhau ei fod o fewn cyrraedd i'r boblogaeth gyfan ac ar gael iddi. Bwriedir i'r Grp adrodd ar ei argymhellion tua diwedd yr haf, 2001.

## **5. GWASANAETHAU PLANT:**

### **5.1 Cofrestr Fabwysiadu ar gyfer Cymru a Lloegr**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran Iechyd wedi penodi Norwood Ravenswood fel y dewis gynigiwr ar gyfer y Gofrestr Fabwysiadu. Bydd trafodaethau cyn-gontract â Norwood Ravenswood yn rhoi sylw i anghenion y Gofrestr mewn perthynas â Chymru, ymhlith pethau eraill. Bydd yr anghenion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Materion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg;
- Lleoliadau trawsffiniol;

- Datblygu cyfathrebu a chysylltu effeithiol ag asiantaethau mabwysiadu yng Nghymru; a
- Darparu adroddiadau rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Norwood Ravenswood yn asiantaeth fabwysiadu wirfoddol, sydd wedi cael ei chymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd i ymdrin â mabwysiadu cartref a mabwysiadu rhyngwladol. Mae'n elusen gofrestredig, wedi'i chreu ym 1997 drwy uno *Norwood Child Care*, a oedd wedi bod yn weithredol ym maes gofal plant a chymorth i deuluoedd ers dros 200 o flynyddoedd, a *The Ravenswood Foundation*, sy'n ddarparwr blaenllaw, ers 1953, ym maes gwasanaethau preswyl a gwasanaethau dydd ar gyfer plant ac oedolion ag anableddau dysgu. Mae'r corff yn gweithio gyda dros 60 o gynghorau.

Mae Norwood Ravenswood wedi cael ei ddewis fel y dewis gynigiwr ar gyfer y Gofrestr Fabwysiadu oherwydd y byddant yn gwneud y canlynol:

- Darparu'r gwerth gorau am arian – darparu lefel ac ansawdd y gwasanaeth a ragwelir gan yr Adran Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a hynny mewn ffordd gost-effeithiol.
- Gweithio'n hyblyg gyda'r Adran Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru – gydol y broses dendro, mae Norwood Ravenswood wedi dangos eu hymrwymiad a'u gallu i weithio'n adeiladol gyda'r Adran Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Cyflwyno gwasanaeth sy'n bodloni'r gofynion a nodwyd gan yr Adran Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru – mae'r cais yn gynhwysfawr a bydd yn cyflwyno'r Gofrestr Fabwysiadu fel y'i rhagwelir gan yr Adran Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 1999, cafodd cyfanswm o 55 o blant yng Nghymru eu mabwysiadu neu eu rhyddhau i'w mabwysiadu (mewn cymhariaeth â dros 2,000 yn Lloegr). Ar lefel yr awdurdodau lleol, mae hyn yn amrywio o ddim plant o gwbl yn cael eu mabwysiadu yng Ngwynedd, Conwy, Sir y Fflint, Sir Gaerfyrddin, Blaenau Gwent a Sir Fynwy i 10 achos o fabwysiadu yng Nghaerdydd. Yn ystod yr un cyfnod, cafodd 92 o blant eu lleoli i'w mabwysiadu (2,900 yn Lloegr), a'r niferoedd yn amrywio ar lefel yr awdurdodau lleol o 0 i 16.

Bydd manylion gweithredu'r Gofrestr yn cael eu penderfynu drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol. Y bwriad yw cadw gwybodaeth am blant a theuluoedd sy'n mabwysiadu ar gronfa ddata gyfrifiadurol, ac awgrymu plant a theuluoedd sy'n gweddu i'w gilydd yn electronig.

Bydd yn ofynnol i gynghorau lleol yng Nghymru a Lloegr roi manylion yr holl blant sy'n aros i gael eu mabwysiadu, a theuluoedd cymeradwy sy'n mabwysiadu, ar y Gofrestr. Byddant yn cael caniatâd gan y plant, fel y bernir yn addas yn ôl eu hoedran a'u dealltwriaeth, a'r teuluoedd, cyn gwneud hynny. Caiff asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol eu hannog i ddefnyddio'r Gofrestr yn llawn hefyd.

Ar ôl rhoi teulu neu blentyn ar y Gofrestr am y tro cyntaf, cytunir ar gyfnod o amser i weithwyr

cymdeithasol chwilio yn lleol am blant a theuluoedd sy'n gweddu i'w gilydd. Bydd y cyfnod hwn o amser yn cael ei bennu gan yr Adran Iechyd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ymgynghori â'r rhanddeiliaid perthnasol. Mae'n bosibl y caiff ei ymestyn ar gyfer asiantaethau mabwysiadu sydd â rhan yn nhrefnadau consortia lleol neu ranbarthol.

Ar ddiwedd y cyfnod y cytunir arno, neu'n syth mewn achosion lle y bydd cyngor yn gofyn hynny gan nad yw dod o hyd i deulu lleol er lles i'r plentyn, caiff y Gofrestr ei defnyddio i awgrymu'r teulu gorau ar gyfer y plentyn. Caiff un neu fwy o deuluoedd posibl eu nodi ar gyfer pob plentyn neu grp o frodyr a chwiorydd.

## 5.2 Safonau Mabwysiadu

Er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau mabwysiadu yn gyffredinol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Adran Iechyd wedi bod yn ymgynghori ynghylch Safonau Mabwysiadu ar gyfer Cymru a Lloegr. Mae'r Alban yn ystyried datblygu safonau tebyg hefyd. Mae argymhellion ynghylch cynnwys y Safonau yn cael eu datblygu gan Weithgor a sefydlwyd o dan nawdd yr Asiantaethau Prydeinig ar gyfer Mabwysiadu a Maethu (BAAF) a dylent gael eu cyflwyno i Weinidogion yn y Cynulliad Cenedlaethol ac yn yr Adran Iechyd yn ystod mis Mehefin.

Mae'r safonau wedi'u strwythuro fel eu bod yn cynnwys adrannau ar wahân ar gyfer pob un o'r rhanddeiliaid allweddol (plant, darpar fabwysiadwyr, rhieni sy'n mabwysiadu, teuluoedd naturiol, cynghorau ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol). Y nod yw sicrhau bod yr holl grwpiau yn gwybod yn glir yr hyn y gallent ei ddisgwyl a'r hyn a ddisgwylir ganddynt a bod yr holl bartïon yn cael gwasanaeth teg a chyson lle bynnag y maent yn byw. Maent wedi'u hategu gan set o werthoedd, sy'n pwysleisio pa mor bwysig yw i bob plentyn cael teulu parhaol, lle y byddant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod anghenion y plentyn yn ganolog i'r broses fabwysiadu.

Bydd y Safonau'n cynnwys graddfeydd amser ar gyfer gwneud penderfyniadau ac ar gyfer gweithredu, er mwyn sicrhau na fydd rhaid i blant aros yn rhy hir cyn cael teulu. Mae'r safonau'n cael eu datblygu er mwyn nodi sut y dylid cyflwyno gwasanaethau mabwysiadu yn gyffredinol ac yr ydym yn disgwyl i bawb sydd â rhan mewn gwasanaethau mabwysiadu ymlynu wrthynt.

### Prif Bwyntiau'r Safonau Cenedlaethol

- Dylai anghenion, dymuniadau, lles a diogelwch **plant** fod yn ganolog i'r broses fabwysiadu.
- Dylid ymateb yn ddi-oed i **bobl sydd am fabwysiadu**, gan roi iddynt wybodaeth glir am y prosesau recriwtio, asesu a chymeradwyo, a'u trin yn deg, yn agored a chyda pharch.
- Dylid gwneud pob ymdrech i gysylltu **mabwysiadwyr cymeradwy** â phlentyn neu blant y gallant ddarparu cartref sefydlog a parhaol ar eu cyfer, a rhoi cymorth a chefnogaeth iddynt wneud hynny.

- Dylai **rhieni naturiol** gael gwasanaethau sy'n cydnabod y goblygiadau gydol oes sydd ynghlwm wrth fabwysiadu.
- Dylai'r **awdurdodau lleol** gynllunio a darparu gwasanaeth mabwysiadu cynhwysfawr i fodloni anghenion plant, rhieni sy'n mabwysiadu, teuluoedd naturiol a rhieni mabwysiedig, ar y cyd ag asiantaethau perthnasol eraill.
- Dylai'r **awdurdodau lleol fel asiantaethau mabwysiadu, ac asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol** ddarparu gwasanaeth mabwysiadu o ansawdd da, sy'n bodloni'r disgwyliadau a nodir uchod.

### 5.3 Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan

Yr wyf wedi ymrwymo i ddatblygu Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, ar y cyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr. Er mai'r Bwrdd sy'n bennaf gyfrifol am yr holl faterion ym maes cyfiawnder ieuencid, mae'n glir, yn ogystal, bod gan y Cynulliad ddiddordeb o bwys yn y maes polisi hwn o safbwynt cynhwysiant cymdeithasol, adfywio cymunedau, iechyd, addysg a hyfforddiant.

Ar hyn o bryd, yr wyf yn ceisio trefnu cyfarfod â'r Arglwydd Warner, Cadeirydd y Bwrdd, i drafod sut y gallwn symud y mater hwn yn ei flaen mor gyflym â phosibl.

### 5.4 Gwasanaeth Cynghori a Chymorth y Llys Plant a Theuluoedd (CAFCASS)

Dechreuodd yr NDPB newydd hwn weithredu'n ffurfiol ar 2 Ebrill ac mae'n ymgorffori'r gwasanaethau a gâi eu darparu'n flaenorol gan Warcheidwaid Ad Litem, Swyddogion Lles y Llys Teuluoedd ac Adran y Cyfreithiwr Swyddogol. Erbyn hyn, nid oes gan y Cynulliad gyfrifoldeb datganoledig am y gwasanaeth GALRO yng Nghymru o'r dyddiad hwn ymlaen, ond yr wyf yn credu o ddifrif y dylem gynnal cysylltiadau agos â'r corff newydd, gan fod rhyngwyneb pwysig rhwng swyddogaethau'r Cynulliad o ran amddiffyn plant a swyddogaethau CAFCASS yn yr un maes.

Bydd fy swyddogion yn cyfarfod â'r Rheolwr Ardal newydd dros Gymru cyn gynted â phosibl.

### 5.5 Trefniadau newydd ar gyfer Ymadawyr â Gofal

Cafodd canllawiau drafft ar gyfer yr awdurdodau lleol ar y trefniadau newydd ar gyfer ymadawyr â gofal, a gaiff eu gweithredu o 1 Hydref 2001 ymlaen, eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori ar 4 Mai. Mae gweithdai ar gyfer ymarferwyr yn cael eu cynnal yn Llandudno ar 16 Mai, yn Abertawe ar 17 Mai ac yng Nghaerdydd ar 21 Mai. Nod y gweithdai yw helpu'r awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill gyda'u cynllunio, a hyrwyddo gweithio ar y cyd. Bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf a chaiff rheoliadau'r Cynulliad Cenedlaethol eu gwneud bryd hynny, yn amodol ar eu

cymeradwyo.

## **5.6 Ailddechrau Imiwneiddio BCG (Y Diciâu)**

Gwnaed datganiad gennyf yn y Pwyllgor hwn ar 1 Mai am achosion o'r Diciâu yn ardal Casnewydd ac am ailgyflwyno'r brechlyn BCG i'r rhaglen arferol ar gyfer ysgolion.

Mae profion croen rhagarweiniol ar yr holl ddisgyblion yng Nghasnewydd wedi'u cwblhau ond mae sgrinio staff yn mynd ymlaen o hyd. Mae apwyntiadau yn cael eu gwneud ar gyfer y bobl hynny y mae angen eu harchwilio ymhellach ond, nes y bydd yr archwiliadau hynny yn cael eu cwblhau, mae'n rhy gynnwys i ddweud bod mwy o achosion na'r wyth sydd wedi'u nodi eisoes.

## **6. GOFAL CYMDEITHASOL:**

### **6.1 Polisi'r Cynulliad er Atal Trais yn y Cartref**

Cyn hir, bydd swyddogion yn rhoi i mi bapur safbwynt, a fydd yn sail i mi ystyried cynigion parthed ehangu gweithgarwch y Cynulliad yn y maes hwn, yn unol â pholisiau newydd sydd wedi'u datblygu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ddiweddar.

Byddaf yn darparu adroddiad mwy manwl ar gyfer y Pwyllgor hwn cyn hir.

### **6.2 Gofalwyr**

Mae Panel Adolygu Strategaeth y Gofalwyr, a sefydlwyd i adolygu a monitro Strategaeth y Gofalwyr, wedi cyfarfod am yr ail dro ac mae wedi helpu i ddrafftio Adroddiad Cyntaf y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru – Cynllun Gweithredu a gaiff ei gyhoeddi ar 12 Mehefin 2001. Mae'r Adroddiad hwn yn adolygu datblygiadau mewn perthynas â'r pwyntiau gweithredu a restrwyd yn y Cynllun Gweithredu gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2000 ac mae'n nodi gweithredu at y dyfodol. Mae fersiwn o'r Adroddiad sydd bron yn derfynol wedi'i gynnwys yn Atodiad A i'r papur i'w nodi - HSS-09-01 (p.4)

Ar 12 Mehefin (sy'n digwydd yn ystod Wythnos Genedlaethol y Gofalwyr) bydd y Cynulliad yn ystyried y canlynol yn ffurfiol:

- Cychwyn Deddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000.
- Rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf i'w gwneud yn bosibl i'r awdurdodau lleol ddarparu taliadau uniongyrchol i: bersonau sydd â chyfrifoldeb rhyant dros blentyn anabl; ac i blant anabl 16 neu 17

oed. Mae hyn yn lle gwasanaethau a ddarperir iddynt gan reoliadau awdurdodau lleol sy'n rhagnodi gwasanaethau personol eu naws a ddarperir i'r sawl y gofelir amdano neu amdani, ar ôl cael cydsyniad ganddynt, er mwyn i ofalwr gael seibiant rhag eu cyfrifoldebau o ran gofalu.

- Ail Adroddiad Grant Arbennig y Gofalwyr a fydd yn darparu £3.7 miliwn i'r awdurdodau lleol i ariannu gwasanaethau ychwanegol ar gyfer gofalwyr. Bydd Adroddiad Grant Arbennig y Gofalwyr wedi'i osod gerbron cyfarfod y Pwyllgor ar 6 Mehefin.

### **6.3 Y Sector Gwirfoddol / Gwirfoddoli**

Mis Mehefin yw mis y thema "Cyngor, Cefnogaeth a Gofal" o dan Flwyddyn Ryngwladol y Gwirfoddolwyr, 2001, o dan nawdd y Cenedloedd Unedig.

Caiff wythnos flynyddol y Gwirfoddolwyr ei chynnal rhwng 1 – 7 Mehefin a bûm yn bresennol mewn digwyddiad yn y Gerddi Botaneg Cenedlaethol, Sir Gaerfyrddin ar 4 Mehefin.

Caiff cyfarfod Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol ei gynnal yng Nghydsweli ar 22 Mehefin.

### **6.4 "Hyblygrwydd" Deddf Iechyd 1999**

Yn ddiweddar, bûm yn ymgynghori am delerau grant arbennig o £1.9 miliwn i'r awdurdodau lleol yn 2001-2 i gynnal a hwyluso gofal hyblyg a gweithio ar y cyd. Mae copïau o'r papur ymgynghori wedi cael eu hanfon at aelodau'r Pwyllgor. Mae Adroddiad Grant Arbennig Gweithio ar y Cyd i fod i gael ei ystyried yn y cyfarfod llawn ar 12 Mehefin.

Yr wyf yn sylweddoli bod cyrff yr NHS a'r awdurdodau lleol mewn nifer o ardaloedd yn ystyried cyfleoedd i gael mwy o weithio ar y cyd. Mae rhai wedi cynnal ymarferion 'hyd a lled' ac mae nifer yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau gweithio ar y cyd. Yn ogystal â'r grant arbennig, byddwn yn ceisio ategu'r gweithgarwch hwn drwy wneud y canlynol:

- Datblygu'r cysyniad partneriaeth strategol y cyfeirir ato yn y Canllawiau ar Hyblygrwydd ac yng Nghynllun yr NHS;
- Trefnu cynadleddau pellach am y materion ymarferol;
- Datblygu'r canllawiau statudol presennol;
- Archwilio materion o ran hyfforddi ar y cyd;
- Cynnal ymchwil a chlariannu;
- Cynnal cronfa ddata gyhoeddus o brosiectau gweithio ar y cyd;
- Casglu a lledaenu enghreifftiau o arferion da, a
- Chynnal cyfarfodydd lleol gyda phartneriaid.

### **6.5 Datblygu Strategaeth ar gyfer Pobl Hn yng Nghymru**

Yn fy adroddiad ym mis Mawrth, nodais y cylch gwaith ar gyfer y Strategaeth ar gyfer Pobl Hn yng Nghymru ac adrodd fy mod wedi gofyn i Brian Gibbons gadeirio'r Grp Llywio. Mae'r aelodau wedi gweld y cynllun prosiect ar gyfer y strategaeth.

Cafodd cyfarfod cyntaf y Grp Llywio ei gynnal ar 4 Mehefin pryd y cafwyd cyflwyniad am yr wybodaeth a'r ymchwil sydd ar gael am yr henoed a heneiddio, ac yr ystyriwyd papurau am raglenni'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer pobl hln a rheoli datblygiad y Strategaeth.

Nodir aelodau'r Grp Llywio yn atodiad B.

Mae Brian Gibbons wedi cynnal dau grp ffocws gyda phobl hn cyn llunio'r Strategaeth, a thrwy hyn, cadarnhawyd bod angen y Strategaeth a bod ei hyd a'i lled arfaethedig yn briodol.

## **7. AROLYGIAETH SAFONAU GOFAL CYMRU: GWEITHREDU**

Cafodd papur "I'w Nodi" ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Mai mewn perthynas â'r Rhaglen Weithredu ar gyfer yr Arolygiaeth Safonau Gofal, a rhoddodd y newyddion diweddaraf am Raglen Ddeddfwriaethol y Ddeddf Safonau Gofal.

## **8. SEFYLLFA ARIANNOL**

### **8.1 Sefyllfa Gyffredinol**

Rhagwelir y bydd sefyllfa ariannol yr Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r NHS ar gyfer 2000-01 rhwng £15 miliwn a £19 miliwn o warged incwm a gwariant er bod nifer o elfennau ansicr o hyd a allai effeithio ar alldro terfynol, yn enwedig ynghylch y sefyllfa derfynol o ran gwariant mewn perthynas â chyffuriau gofal sylfaenol.

Mae cyfuniad o ddau ffactor yn gyfrifol am y warged:

- Darparu ariannu achlysurol sydd wedi golygu bod modd gwneud iawn am ddiffygion o flynyddoedd blaenorol ac ad-dalu dyledion sydd heb eu clirio a/neu sydd wedi golygu bod modd ariannu diffygion sylfaenol heb droi at fentyca; a
- Oedi o ran gweithredu datblygiadau newydd yn y sector gofal aciwt a'r sector gofal sylfaenol, yn bennaf oherwydd yr amser sy'n angenrheidiol i ddatblygu cynlluniau buddsoddi a recriwtio staff ar ôl cyhoeddi adnoddau ychwanegol sylweddol ar gyfer iechyd tua diwedd mis Mawrth 2001.

Mae'r incwm sydd heb ei wario wedi cael ei gymryd i ystyriaeth yn y cynlluniau gwariant ar gyfer 2001-02.

Yn ôl yr asesiad, mae diffyg o ryw £13 miliwn yn y sefyllfa ariannol sylfaenol o ran incwm a gwariant a bydd yn gostwng i £10 miliwn yn 2001-02. Rhagwelir y caiff y balans ariannol sylfaenol net ei adfer erbyn diwedd 2003.

Y canlyniad dros dro ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yw tanwariant arian o £54.7 miliwn (£49.8 miliwn ar iechyd a £4.9 miliwn ar wasanaethau cymdeithasol). Mae hyn yn amodol ar wirio'r archwiliad ond mae dros hanner y tanwariant ar iechyd eisoes wedi'i ymrwymo ar gyfer prosiectau cyfalaf (£29.9 miliwn) neu'n gysylltiedig ag ymrwymadau a phrosiectau gwariant refeniw clustnodedig sydd, er nad yw'n bosibl eu gweithredu yn ystod y flwyddyn, wedi cael eu cymryd i ystyriaeth yn y cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol.

## **9. CYNULLIAD IECHYD Y BYD**

Ar ddydd Mawrth 15 Mai, yr oedd yn bleser mawr gennyf gael cynrychioli Cymru a'r Deyrnas Unedig yng Nghynulliad Iechyd y Byd yng Ngenefa. Cafodd y cyfarfod ei drefnu gan Fudiad Iechyd y Byd (WHO) sydd yn asiantaeth arbenigol o dan nawdd 191 Aelod-Wladwriaeth y Cenhedloedd Unedig.

Prif bwnc Adroddiad Iechyd y Byd eleni yw Iechyd Meddwl a hwn oedd pwnc y trafod yng nghyfarfodydd bord gron y Gweinidogion. Yr oedd prif bwyntiau'r trafod yn cynnwys y canlynol:

- Beth yw rhai o'r rhwystrau allweddol o ran darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned yn eich gwlad a pha ymdrechion sy'n cael eu gwneud i'w goresgyn?
- Beth y mae'ch gwlad wedi trefnu ei wneud (neu beth y mae'n bwriadu trefnu ei wneud) i ymladd yn erbyn gwahaniaethau'n annheg yn erbyn pobl â salwch meddwl a'u teuluoedd, a'u difriö?
- I ba raddau y mae polisi iechyd meddwl eich gwlad yn cymryd gwahaniaethau rhwng y rhywiau i ystyriaeth ac a yw'n nodi ffactorau risg sy'n benodol i'r naill ryw a'r llall er mwyn mynd ati i atal iechyd meddwl, ac yn rhoi sylw iddynt?

Rhoddodd y Cynulliad y cyfle i mi dynnu sylw at y gwaith cadarnhaol yr ydym yn ei wneud yng Nghymru ym maes iechyd meddwl ac i ddysgu o brofiadau gwledydd eraill.

Mae copi o'r papur a gyflwynwyd gan yr WHO ar gyfer trafodaethau bord gron y Gweinidogion wedi'i amgáu yn atodiad C.



## 10. RHAGLEN IS-DDEDDFWRIAETH IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2001.

Mae rhestr sy'n dangos y sefyllfa o ran is-ddeddfwriaeth yn ystod y cyfnod hyd at wyliau'r haf wedi'i hamgáu yn atodiad D.

Yn ogystal â'r eitemau a restrir, mae'n bosibl y bydd yn angenrheidiol i adran 54 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (gofal **nyrsio** am ddim) gael ei chychwyn drwy weithdrefn Weithredol yn ystod y gwyliau oherwydd ei bod yn debygol y bydd yr adran hon yn dod i rym tua diwedd mis Medi yn Lloegr. Byddwn yn archwilio goblygiadau gofal **personol** am ddim yng nghyd-destun y Strategaeth Pobl Hn. Mae papur ynghylch materion sy'n codi o'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i fod i gael ei ystyried gan y Pwyllgor yn y cyfarfod ar 20 Mehefin.